# Cynllun Datblygu Lleol

### Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

### Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliad 16),

### Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 2005 (Rheoliad 24)

## Adroddiad yr Arolygydd ynghylch Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion

Ar 13 Mawrth derbyniodd y Cyngor Adroddiad yr Arolygydd ynghylch Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion.

Teitl yr adroddiad yw 'Adroddiad ynghylch yr Archwiliad i Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion 2007 – 2022' ac mae'r Arolygydd wedi ei gyflwyno i'r Cyngor. Mae ar gael drwy'r ddolen isod:

Mae'r adroddiad hefyd ar gael i'w weld yn ddi-dâl yn Swyddfa'r Cyngor Penmorfa, Aberaeron, Llun-Iau, 9am - 4.30pm a Gwener 9am - 4.00pm ac yn Llyfrgelloedd y Sir a'r Llyfrgelloedd Teithiol, yn ystod yr amserau agor a nodir yn: http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=1310 (neu ffoniwch 01545 572123 i gael gwybod yr amserau agor).

Mae ar gael ar wefan y Cyngor hefyd: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp

Daeth yr Arolygydd i'r casgliad, o ymgorffori'r newidiadau y mae wedi eu hargymell ac a amlinellir yn ei adroddiad, yn y CDLl, bod y Cynllun yn diwallu Adran 64 (5)  Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac mae'n cyflawni'r profion cadernid a osodir yn 'Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru'.

Yn awr mae'n rhaid i'r Cyngor fabwysiadu'r Cynllun – bydd yn rhaid i hynny ddigwydd o fewn 8 wythnos ar ôl derbyn adroddiad yr Arolygydd.

Unwaith y caiff ei fabwysiadu, Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion fydd Cynllun Datblygu Ceredigion a bydd yn sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch cynllunio defnydd tir yn yr ardal hon. Bydd yn disodli Cynllun Fframwaith Dyfed (1991) a Chynllun Datblygu Unedol Ceredigion (2001 – 2016) nad oedd wedi ei fabwysiadu.